Gwasanaeth Erlyn y Goron
Yn Darparu Cyfiawnder

CPS

# ADRODDIAD TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

## DEGFED ARGAFFIAD

2016–17

YN CYNNWYS DATA AM DDYNION A BECHGYN

# Cynnwys yr adroddiad am Droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched


**Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus** 1

**10 mlynedd yn gryno**

**Adroddiad am Droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched** 3
Is-set Trais yn erbyn Menywod a Merched 5
Cam-drin domestig 6
Stelcio ac aflonyddu 7
Treisio 9
Troseddau rhywiol (heb gynnwys treisio) 10
Trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, priodas dan orfod, ac anffurfio organau rhywiol benywod 12
Cam-drin plant 14
Masnachu mewn Pobl 16
Puteindra 17
Pornograffi ac anweddustra 17

**Adroddiad Data am Drais yn erbyn Menywod a Merched**

**Atodiad 1** **Erlyniadau yn ôl Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ardaloedd yr heddluoedd**

**Atodiad 2** **Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar stelcio, aflonyddu, gorchmynion atal a'r Ystadegau Cenedlaethol am Dreisio**

**Geirfaoedd** **Rhestr termau ac acronymau**

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus



Dyma ddegfed blwyddyn cyhoeddi ein hadroddiad am droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi'r dadansoddiad a'r asesiad o'n perfformiad bob blwyddyn, er mwyn helpu i wneud ein herlyniadau'n fwy effeithiol am Drais yn erbyn Menywod a Merched. Dros y cyfnod yma o ddeng mlynedd mae euogfarnau am Drais yn erbyn Menywod a Merched wedi codi o 51,974 i 84,565 – sef cynnydd o 63%.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol a gyda'n rhanddeiliaid, i annog dioddefwyr i adrodd am y troseddau yma ac mae erlyniadau am gam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol yn awr yn gyfatebol ag un ymhob pump o lwyth achosion cyfan Gwasanaeth Erlyn y Goron. Yn 2007–08, roedd erlyniadau oedd yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn gyfatebol â 7.1% o lwyth achosion cyfan Gwasanaeth Erlyn y Goron; yn 2016-17, cododd hyn i 19.3%

Yn 2016–17, roedd ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn dal i fod yn flaenoriaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron. Rydym wedi erlyn ac euogfarnu mwy o ddiffynyddion am droseddau rhywiol (yn cynnwys treisio a cham-drin plant yn rhywiol) nag erioed o'r blaen. Cafwyd mwy na 13,500 o ddiffynyddion yn euog - 1,670 (14%) yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol ac roedd mwy na thraean o'r euogfarnau yma am gam-drin plant yn rhywiol. Am y tro cyntaf, mae'r data am oed dioddefwyr trais yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi, ac mae'n dangos bod mwy na hanner y dioddefwyr yn iau na 24 mlwydd oed, a bod bron i un ymhob pump yn 14-17 oed. Rydym yn ymdrin â thargedu pobl ifanc drwy ein gwaith ar gam-drin plant yn rhywiol, yn ogystal â gwneud defnydd o droseddau newydd i ddelio gyda'r cynnydd yn natur eithriadol y cam-drin rhywiol, megis 'meddu ar ddelweddau pornograffig eithriadol yn portreadu treisio', ffrydio delweddau anweddus o blant a 'meddu ar lawlyfr pedoffil'.

Mae nifer y diffynyddion treisio a erlynwyd ac a gafwyd yn euog wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, gyda chyfradd gyson o euogfarnau. Yn y flwyddyn sy'n dod rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at ymarfer 'At Wraidd y Mater' ar draws y llywodraeth i ganfod ffyrdd o ostwng ymhellach y cyfraddau o adael cyn gorffen mewn achosion o gam-drin rhywiol difrifol. O fewn Gwasanaeth Erlyn y Goron yn benodol, rydym yn amcanu i wella perfformiad drwy hyfforddiant ac arweiniad diwygiedig, i'r erlynwyr a'r eiriolwyr fel ei gilydd. Rydym yn datblygu hyfforddiant am achosion o dreisio gan rywun sy'n gydnabod i'r dioddefwr, sy'n cynnwys unigolion meddw, yn ogystal â phecyn cymorth am dystiolaeth seicolegol i erlynwyr

Mae ein herlyniad mewn achosion sy'n cynnwys y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu, nid yn unig am droseddau rhywiol ond hefyd am gam-drin domestig, stelcio ac alfonyddu.Rydym wedi erlyn mwy na 460 o droseddau o ddatgelu delweddau preifat heb gydsyniad ('pornograffi dial' fel y'i gelwir). Erlynwyd mwy na 300 o droseddau o ymddygiad rheoli a gorfodi ers i'r gyfraith gael ei chyflwyno y llynedd, gyda llawer ohonynt yn cynnwys rheoli'r dioddefwyr drwy'r we, meddalwedd tracio a

phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd wedi erlyncyfran uwch o droseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig o gyfathrebu anweddus neu ddifrifol o sarhaus.

Yn ystod y flwyddyn cawsom gwrdd â grwpiau sy'n cefnogi dioddefwyr gwrywaidd troseddau a elwir yn Drais yn erbyn Menywod a Merched ac aethom ati i gyhoeddi datganiad sefyllfa am gefnogaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddynion a bechgyn - rhan o'n dull strategol cyffredinol o sicrhau cyfiawnder i *bawb*. Aethom ati i amlinellu ein hymrwymiad i diweddaru ein canllawiau cyfreithiol, hyfforddiant ac astudiaethau achos i erlynwyr i gynnwys manylion y profiadau a gafodd dioddefwyr gwrywaidd, yn ogystal â helpu i herio mythau a stereoteipiau a darparu manylion y gwasanaethau cymorth penodol sydd ar gael i ddynion.

Yn 2016-17 gwelsom fod cyfanswm yr erlyniadau am gam-drin domestig wedi disgyn o 100,930 yn y flwyddyn flaenorol i 93,590, am fod llai o achosion wedi eu hatgyfeirio gan yr heddlu. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr heddlu, yn lleol ac yn genedlaethol, i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r gostyngiad mewn nifer ac yn cymryd achosion priodol yn eu blaenau. Rydym wedi codi'r mater drwy Weithgor Cam-drin Domestig y Gweinidogion, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol y Swyddfa Gartref i sicrhau ei fod yn derbyn sylw ar y lefel uchaf. Erbyn diwedd y flwyddyn, cododd y gyfradd euogfarnu i 75.5%. Rydym hefyd yn gweithio'n ehangach ar draws y System Cyfiawnder Troseddol i ddatblygu model arferion gorau mewn cam-drin domestig i'w ddefnyddio ymhob llys a byddwn yn darparu rhagor o hyfforddiant i bob un o'n herlynwyr yn 2017-18.

Hoffwn ddiolch i'r rhanddeiliaid yn ein Grŵp Ymgynghori Allanol am Drais yn erbyn Menywod a Merched a'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol sydd wedi parhau i ddarparu eu cefnogaeth genedlaethol a'u cyngor arbenigol yn ystod 2016-17. Yn ogystal, diolch i'n Cydlynwyr Ardal ymroddedig ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched yn ein Hunedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol a holl staff Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n delio gyda'r achosion yma, yn ogystal â'r mudiadau sydd wedi cefnogi ein panelau craffu lleol.


Fel y dywedwn bob tro, mae mwy i'w wneud o hyd yn y flwyddyn sy'n dod. Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni'n barod, gan gyflwyno newidiadau o'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu, a gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau gwasanaeth gwell fyth i ddioddefwyr y troseddau hyn a'n cymdeithas gyfan.

**Alison Saunders CB**

**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**

**Hydref 2017**

# 10 MLYNEDD YN GRYNO






Troseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched* | Arall

Yn 2007-08, roedd troseddau trais yn erbyn menywod a merched yn gyfatebol â 7.1% o lwyth achosion cyfan Gwasanaeth Erlyn y Goron. Yn 2016-17, cododd hyn i 19.3%; erbyn hyn mae un ymhob pum achos bron iawn yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a marched.

Euogfarn | Aflwyddiannus

Cafwyd cynnydd o 48.8% ers 2007-08 mewn erlyniadau am droseddau trais yn erbyn menywod a merched, ynghyd â chynnydd cyfatebol o 62.7% mewn euogfarnau.









Euogfarn | Aflwyddiannus

Yn 2016-17 cafwyd 5,715 yn fwy o euogfarnau am droseddau rhywiol yn cynnwys trais a cham-drin plant yn rhywiol nag a gafwyd yn 2007-08. Cynnydd o 73.4% dros 10 mlynedd.

Euogfarn | Aflwyddiannus

Eleni cafwyd 26,876 yn fwy o euogfarnau am droseddau'n ymwneud â cham-drin domestig nag a gafwyd yn 2007-08.




Euogfarn | Aflwyddiannus

Cychwynnodd Gwasanaeth Erlyn y Goron 3,241 yn fwy o erlyniadau am achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn 2016-17 nag yn 2007-08, gan sicrhau 2,534 o euogfarnau - sef cynnydd o 89.2%.


*Troseddau trais yn erbyn Menywod a Merched yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol difrifol.

# Adroddiad am Droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched

Yr adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched ar gyfer 2016–17 yw'r degfed cyhoeddiad a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae'n ddadansoddiad o'r materion erlyn allweddol ymhob maes o Drais yn erbyn Menywod a Merched - cam-drin domestig, stelcian, aflonyddu, treisio, troseddau rhywiol, priodas dan orfod, trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau rhywiol menywod, cam-drin plant, masnachu pobl i gamfanteisio arnynt yn rhywiol, puteindra a phornograffi.

Mae Trais yn erbyn Menywod a Merched wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yng nghynlluniau busnes Ardal a Chenedlaethol Gwasanaeth Erlyn y Goron yn 2016-17. Yn unol â phedair colofn Cynllun Busnes cyffredinol Gwasanaeth Erlyn y Goron, rydym yn canolbwyntio ar: lwyddiant ein pobl; parhau i ddod â gwelliant; gwaith achos o safon uchel a hyder y cyhoedd ynom.

Mae strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhan o fframwaith strategol Trais yn erbyn Menywod a Merched trosfwaol ar draws y llywodraethau, wedi ei seilio ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi a'u cadarnhau. Mae'r adroddiad yn rhoi asesiad o berfformiad yr erlyniad am droseddau sydd wedi'u grwpio ynghyd o dan y pennawd 'Trais yn erbyn Menywod a Merched', am eu bod wedi'u pennu'n rhai a weithredwyd yn bennaf, ond nid yn gyfangwbl, gan ddynion yn erbyn menywod o fewn patrwm o orfodaeth, pŵer neu reolaeth. Fodd bynnag, mae'r troseddau yma'n gallu digwydd yn erbyn dynion a bechgyn hefyd ac, yn 2017, cyhoeddwyd papur ar ein hagwedd a'n cefnogaeth i ddioddefwyr gwrywaidd (in English). Mae'r adroddiad data Trais yn erbyn Menywod a Merched ar y ddolen hon yn cynnwys *y data cyfan am yr holl droseddwyr a dioddefwyr, beth bynnag fo eu rhyw*. Mae'n amlinellu rhagor o wybodaeth am y rhywiau ac mae'n esbonio'r agwedd gyffredinol tuag at Drais yn erbyn Menywod a Merched.[1]




[1] Mae'r adroddiad yma'n darparu'r canlyniadau yn ôl y diffynnydd ac ni all ddarparu gwybodaeth ar wahân am ganlyniadau ar sail y dioddefwyr neu'r troseddau. I'r perwyl hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân ar gyfer canlyniad yr achosion a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; ac nid yw ychwaith yn bosibl cyfateb rhyw'r diffynnydd gyda rhyw'r dioddefwr.

Mae'r adroddiad yma'n darparu data allweddol, sylwadau ac astudiaethau achos mewn adrannau gwahanol i bob maes o Drais yn erbyn Menywod a Merched. Yna mae pob adran wedi'i chysylltu â'r adroddiad data am Drais yn erbyn Menywod a Merched sy'n rhoi rhagor o fanylion am weithredoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.

## Is-set Trais yn erbyn Menywod a Merched

Mae'r 'is-set Trais yn erbyn Menywod a Merched' yn benodol yn grwpio cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol at ei gilydd. Cydnabyddir y bydd rhywfaint o orgyffwrdd gyda'r data a fflagiwyd[2] ar gyfer cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol. ond nid yw hyn o faint sylweddol.

Mae erlyniadau am gam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol yn gyfatebol erbyn hyn â bron i un ymhob pump o lwyth achosion cyfan Gwasanaeth Erlyn y Goron, sy'n gynnydd ar y gyfradd o 7.1% a gafwyd yn 2007-08. Dros y cyfnod o ddeng mlynedd, ers yr adroddiad cyntaf am Drais yn erbyn Menywod a Merched, cafwyd cynnydd o 63% mewn euogfarnau hefyd.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae mwyafrif yr erlyniadau am droseddau sydd wedi'u grwpio o dan y teitl Trais yn erbyn Menywod a Merched, i bwrpasau rheoli perfformiad, yn droseddau cam-drin domestig - 83.4%, gyda threisio'n cyfrif am 4.6%, a gyda chynnydd yn y gyfran o droseddau rhywiol, heb gynnwys treisio, yn cyfrif am 12.0%. Yn 2016-17, y rheswm pennaf am y gostyngiad bychan yn y niferoedd o droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched a erlynwyd ac a gafwyd yn euog oedd y gostyngiad mewn atgyfeirio diffynyddion Cam-drin Domestig gan yr heddlu. Gwelwyd y gostyngiad mewn atgyfeiriadau ar ddiwedd 2015-16 ac effeithiodd hyn ar symudiad achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron ymlaen at erlyniad yn ystod 2016-17. Mae'r camau gweithredu i ymdrin â hyn wedi'u hamlinellu yn yr adran am Gam-drin Domestig.

- Rhwng 2007–08 a 2016–17, mae nifer yr euogfarnau wedi codi o 51,974 i 84,565 – sef cynnydd o 32,591 o euogfarnau – cynnydd o 63% dros y cyfnod yma o ddeng mlynedd.

- In 2016–17 gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau 'Trais yn erbyn Menywod a Merched'[3] gan yr heddlu o 124,737 yn 2015–16, sef y nifer uchaf a gofnodwyd, i 117,444 yn 2016–17 – sef gostyngiad o 7,293 o atgyfeiriadau (5.8%).

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau am droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched[4] o 117,568 yn 2015–16, sef y nifer uchaf a gofnodwyd, i 112,270 yn 2016–17 – sef gostyngiad o 5,298 o ddiffynyddion (4.5%).

- Syrthiodd nifer yr euogfarnau o 87,275 yn 2015–16, y nifer uchaf a gofnodwyd, i 84,565 yn 2016–17 – sef gostyngiad o 2,710 o euogfarnau (3.1%). Cynyddodd y gyfradd euogfarnau o 74.2% i 75.3%.

**Mae rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod a Merched a data perthnasol i'w cael drwy ddilyn y ddolen at yr adran Trais yn erbyn Menywod a Merched.**

[2] Mae data am y diffynyddion wedi'i fflagio yn system data Gwasanaeth Erlyn y Goron am gam-drin domestig a threisio.

[3] Nid yw cofnodion Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnwys manylion am benderfyniadau cyn-chyhuddo sy'n ymwneud â throseddau rhywiol (ddim yn cynnwys treisio) ac felly ni ellir darparu data am atgyfeiriadau gan yr heddlu. Yn y testun yma, mae'r atgyfeiriadau Trais yn erbyn Menywod a Merched gan yr heddlu'n cynnwys dim ond treisio a cham-drin domestig.

[4] Nodwch bod nifer y diffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl y rhai a amheuir, *a basiwyd ymlaen* at Wasanaeth Erlyn y Goron yn ystod 2016–17 i dderbyn penderfyniadau cyhuddo ac nid ydynt yn uniongyrchol gymaradwy yn eu nifer gyda'r rheiny a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl y diffynyddion, *a gwblhawyd* yn ystod 2016–17.

## Cam-drin domestig

Yn 2016–17 aeth ymarfer 'At Wraidd y Mater' am Gam-drin Domestig ati i ddatblygu a phrofi fframwaith arferion gorau i'w ddefnyddio ar draws y Llysoedd Ynadon i gyd. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol yn gwerthuso'r canlyniadau yn 2017-18 i ystyried cyflwyno'r fframwaith yn genedlaethol, gydag adolygiad o'r llawlyfr adnoddau Llys Arbenigol am Gam-drin Domestig.

Yn 2016-17, datblygwyd dau fodiwl e-ddysgu gorfodol newydd am Gam-drin Domestig, un yn ymwneud ag erlyniadau dan arweiniad tystiolaeth ac un am ymddygiad rheoli neu orfodi ar gyfer pob erlynydd yn 2017-18.

Mae'r gostyngiad mewn atgyfeiriadau achosion o gam-drin domestig gan yr heddlu, a bennwyd ar ddiwedd 2015-16, wedi cael effaith ar nifer yr erlyniadau a'r euogfarnau yn 2016-17. Rydym wedi gweithio'n agos gydag Arweinydd Cenedlaethol yr Heddlu ar Gam-drin Domestig ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i bennu'r rhesymau am y gostyngiad ac rydym yn ymdrin â ffyrdd o sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn briodol. Rydym wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd gennym gyda'r heddlu ynghylch troseddau sy'n ymwneud â gorfodi neu reoli ac rydym wedi rhoi aide memoire iddynt wedi'i seilio ar ein modiwlau e-ddysgu am gam-drin domestig. Yn ogystal, rydym wedi codi'r mater drwy'r Gweithgor Cam-drin Domestig ar Lefel y Gweinidogion a Grŵp Goruchwylio Cam-drin Domestig Cenedlaethol y Swyddfa Gartref i sicrhau ei fod yn derbyn sylw ar y lefel uchaf. Mae amlinelliad o'r manylion yn data'r adran cam-drin domestig.

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth yn 2017-18 i ddatblygu'r Bil Trais a Cham-drin Domestig i ddod â mwy o droseddwyr i gyfiawnder yn ogystal â diogelu dioddefwyr camdriniaeth ymhellach.

**Mae'r ymarfer 'At Wraidd y Mater' am Gam-drin Domestig yn asesu'r defnydd a wneir o fideos a wisgir gan yr heddlu ar eu cyrff i ddarparu tystiolaeth effeithiol i helpu erlyniadau.**

Ffoniwyd yr heddlu gan ferch i ddioddefwr pan gafodd ei mam ei thrywanu gan ei thad. Pan gyrhaeddodd yr heddlu y lleoliad, roedd y dioddefwr yn y stryd a gwrthododd ymgysylltu â'r heddlu ac ni roddodd ddatganiad. Gwrthododd y ferch roi datganiad hefyd. Gwrthododd aelodau eraill o'r teulu roi unrhyw sylwadau. Yn lleoliad y digwyddiad rhoddodd y diffynnydd ddau sylw arwyddocaol "Fi drywanodd hi" a "Doeddwn i ddim eisiau ei lladd hi ond roedd hi'n fy mhryfocio." Recordiwyd yr ail sylw ar fideo a wisgwyd ar y corff. Roedd ganddo waed ar ei ddillad a'i ddwylo a chanfuwyd cyllell wedi'i staenio â gwaed yn y lleoliad. Cyfwelwyd y diffynnydd ac roedd yn gwrthod rhoi sylw. Erlynwyd yr achos yn gyfan gwbl ar sail tystiolaeth amgylchiadol. Cafwyd cais achlust am y recordiad 999. Defnyddiwyd y fideo a wisgwyd ar y corff fel tystioaleth, yn cynnwys y cyfaddefiad. Defnyddiwyd datganiadau meddygol a thystiolaeth fforensig hefyd. I ddechrau plediodd y diffynnydd yn ddieuog ond newidiodd ei ble yn yr adolygiad cyn y treial. Cafodd ei ddedfrydu i 9.5 mlynedd o garchar.

- Rhwng 2007-08 a 2016–17, mae nifer yr euogfarnau wedi codi o 43,977 i 70,853 – sef cynnydd o 26,876 o euogfarnau – cynnydd o 61% dros y cyfnod yma o ddeng mlynedd.

- Yn 2016–17, gostyngodd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin domestig gan yr heddlu o 117,882 yn 2015–16 i 110,833 – sef cwymp o 7,049 o atgyfeiriadau (6.0%), gyda chwymp cyfatebol o 3.3% mewn pobl dan amheuaeth a gyhuddwyd.

- Mae nifer yr erlyniadau cam-drin domestig a gwblhawyd wedi gostwng o 100,930 yn 2015-16 i 93,590 yn 2016-17 - sef cwymp o 7,340 o ddiffynyddion (7.3%).

- Gostyngodd y nifer o euogfarnau o 75,235 yn 2015–16 i 70,853 yn 2016–17 – sef cwymp o 4,382 o euogfarnau (5.8%). Cynyddodd y gyfradd euogfarnau o 74.5% yn 2015–16 i 75.7%, y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed.

- Ers cyflwyno'r drosedd o ymddygiad gorfodi neu reoli, mae 309 o droseddau wedi cael eu cyhuddo ac wedi cyrraedd gwrandawiad cyntaf.

**Dilynwch y ddolen at yr adran Cam-drin Domestig i gael manylion gweithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r achos dilynol yn esiampl o'r achosion yr ydym yn eu herlyn erbyn hyn o dan y drosedd Ymddygiad Rheoli neu Orfodi.**

Dedfrydwyd diffynnydd i 20 mlynedd o garchar a gorchymyn atal amhenodol ar ôl pledio'n euog i drosedd o ymddygiad rheoli neu orfodi oedd yn cynnwys trais. Aeth y dioddefwr i'r llys i glywed y ddedfryd gyda chefnogaeth arbenigol Cynghorydd Annibynnol am Drais Domestig, a darparodd Ddatganiad Personol y Dioddefwr oedd yn un cryf.

Roedd hi wedi bod mewn perthynas gyda'r diffynnydd ers tair blynedd, ac yn ystod yr amser yma roedd ef yn ei rheoli hi ac yn mynnu cael arian ganddi i brynu alcohol, i gamblo ac ar gyfer menyw arall Roedd yn galw enwau arni, yn cynnwys 'tew' a 'hyll' yn ogystal â gwneud sylwadau hiliol sarhaus. Roedd yn tracio ei ffôn ac yn mynnu ei bod hi'n anfon lluniau i brofi lle'r oedd hi ac yn dangos ei lleoliad ar wasanaethau negeseua. Ymosododd arni a mynnodd gael rhyw.

**Yn 2016–17, cafwyd euogfarn gan Wasanaeth Erlyn y Goron mewn 70,853 o achosion o gam-drin domestig.**



[5]Nodwch nad yw data Gwasanaeth Erlyn y Goron am stelcio ac aflonyddu ond ar gael o'r system ddata sydd wedi ei seilio ar droseddau ac felly ni all gynnwys data am atgyfeiriadau heddlu, cyhuddo, canlyniadau a dioddefwyr.

Cyhoeddwyd canllawiau cyfryngau cymdeithasol Gwasanaeth Erlyn y Goron ym mis Hydref 2016 yn cynnwys adran ar stelcio. Aeth gweithgor stelcio ac aflonyddu Gwasanaeth Erlyn y Goron ati i adolygu'r hyfforddiant i erlynwyr i'w weithredu yn 2017-18. Yn gyffredinol, roedd gostyngiad mewn erlyniadau am stelcio ac aflonyddu a chynnydd yn yr erlyniadau am dorri amodau gorchmynion atal. Mewn ymateb i arolwg thematig Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi/Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMIC/HMCPSI) o stelcio ac aflonyddu, yn 2017-18 byddwn yn diwygio ein cyd-brotocol stelcio rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn diweddaru ein harweiniad cyfreithiol ar orchmynion atal ac yn derbyn pledion. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl erlynwyr yn derbyn hyfforddiant.

- Cychwynwyd erlyniadau ar gyfer 11,889 o droseddau stelcio ac aflonyddu yn 2016–17; roedd hyn yn ostyngiad o 1,097 mewn troseddau (8.4%) ers 2015–16 pan gychwynwyd 12,986 o erlyniadau. Roedd 71.0% yn ymwneud â cham-drin domestig, sef cynnydd bychan iawn o 69.9% yn 2015–16.

- Cychwynwyd 959 o erlyniadau o dan y troseddau stelcio mwy newydd (cwymp o 1,102 yn 2015–16). O'r rhain roedd 64.8% yn ymwneud â cham-drin domestig, sef gostyngiad o 67.6% yn 2015–16.

- Cychwynwyd 16,614 o erlyniadau am dorri amodau gorchmynion atal, sef cynnydd o 8.0% o 15,384 yn 2015-6 a'r nifer uchaf erioed a gofnodwyd. Roedd 86.2% o'r rhain yn ymwneud â cham-drin domestig, sef cynnydd o 85.7% yn y flwyddyn flaenorol.

- Dechreuodd 6,505 o achosion o dorri amodau gorchmynion peidio ag ymyrryd, o'i gymharu â 6,672 yn y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 2.5%. Roedd 94.8% o'r rhain yn ymwneud â cham-drin domestig, sef cynnydd bychan o 93.6% a gafwyd yn 2015–16.

**Dilynwch y ddolen at yr adran Stelcio ac Aflonyddu i gael manylion gweithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn dangos defnydd effeithiol o adran 4A y Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu - stelcio sy'n achosi ofn neu ofid difrifol.**

Cafwyd swyddog heddlu'n euog o adran 4A y Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu a rhoddwyd gorchymyn atal arno am stelcio partner, a oedd hefyd yn swyddog heddlu, gan achosi gorbryder a gofid difrifol. Roedd y diffynnydd yn cymryd arno ei fod yn cael ei stelcio gan gyn-gariad ffug. Creodd we o gelwyddau i geisio distrywio lles meddyliol a hunan-hyder y dioddefwr. Canfu'r dystiolaeth gyfrifiadrol fforensig nad oedd y cyn-gariad yn bodoli a bod yr e-byst ganddi wedi eu hanfon o gyfeiriad IP (Protocol Rhyngrwyd) y diffynnydd ei hun. Anfonodd e-byst yn awgrymu bod y cyn-gariad wedi bod yn y tŷ neu wedi bod yn gwrando rhywsut ar eu sgyrsiau. Cyn hir trodd y negeseuon yn dywyll ac yn or-rywiol eu naws a'u cynnwys, gyda geiriau sarhaus ac andwyol am y dioddefwr. Aeth hithau mor baranoiaidd ac ofnus nes ei bod yn rhy nerfus i gerdded at ei char ar ei phen ei hun hyd yn oed. Llwyddodd yr heddlu i ganfod dwy o'i gyn-gariadon yn yr Alban a sicrhau datganiadau ganddynt i ddangos bod yr ymddygiad yma wedi digwydd fwy nag unwaith. Cafodd ei ddedfrydu i 18 mis o garchar.

## Treisio[6]

Yn 2016–17 cychwynwyd rhaglen waith wedi'i chydlynu gan Gyd-Grŵp Llywio Cenedlaethol am Dreisio yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Arweinwyr Plismona Cenedlaethol, gyda chefnogaeth gan Fwrdd Darparu ar y cyd. Darparwyd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i gyfreithwyr arbenigol gan holl Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Arweiniodd hyn at gynnydd yn y nifer o erlyniadau ac euogfarnau, gan gyrraedd y niferoedd uchaf a gofnodwyd erioed. Cafwyd gostyngiad bach mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu a diffynyddion a gyhuddwyd a bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i fonitro hyn er mwyn asesu pa mor briodol ydynt ac ymdrin ag unrhyw broblemau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Am y tro cyntaf mae'r data am oedran y dioddefwyr yn ddigon cryf i gael ei gyhoeddi, ac mae'n dangos bod mwy na hanner y dioddefwyr o dan 24 oed, a bron i un ymhob pump yn 14-17 oed. Mae'r wybodaeth yma, ynghyd â'r data am gam-drin plant, yr wybodaeth am y defnydd a wneir o'r cyfryngau cymdeithasol a'r erlyniadau am droseddau pornograffi newydd yn ein helpu i ddeall y materion erlyn allweddol sy'n dechrau ymddangos, y cynnydd yn natur eithriadol y cam-drin rhywiol a'r cynnydd yn y dioddefwyr ifanc sy'n cael eu targedu.

- Rhwng 2007-08 a 2016–17, mae niferoedd yr euogfarnau wedi codi o 2,021 i 2,991, sef cynnydd o 970 o euogfarnau, a'r nifer uchaf ers i gofnodion gychwyn - cynnydd o 48% dros y cyfnod yma o ddeng mlynedd.

- Yn 2016–17, cwympodd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu o 6,855 yn 2015–16 i 6,611 – sef gostyngiad o 244 atgyfeiriad (3.6%), gyda chwymp cyfatebol o 6.1% yn y bobl dan amheuaeth a gyhuddwyd.

- Cododd nifer yr erlyniadau am dreisio a gwblhawyd o 4,643 yn 2015–16 i 5,190 yn 2016–17 – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed - sy'n gynnydd o 547 o erlyniadau (11.8%). Cyflawnwyd 45.0% o erlyniadau a fflagiwyd am dreisio yn 2016-16 yn erbyn dioddefwyr sy'n blant.

- Mae'r data am oedran dioddefwyr treisio'n dangos bod mwy na 3,000 (52.3%) o ddioddefwyr treisio y cofnodwyd eu hoedran yn iau na 24 mlwydd oed - roedd 24.7% yn 18-24 oed (1,425); roedd 18.3% yn 14-17 oed (1,059); roedd 7.5% yn 10-13 oed (435 o ddiodefwyr) ac roedd 1.8% (103 o ddioddefwyr) yn iau na deng mlwydd oed.

- Cododd y nifer o euogfarnau o 2,689 yn 2015–16 i 2,991 yn 2016–17 – sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed – sy'n gynnydd o 302 o euogfarnau (11.2%). Arhosodd cyfradd euogfarnau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn sefydlog ar 57.6% yn 2016–17, o'i gymharu â 57.9% yn 2015–16.

[6] Mae llawer o ddioddefwyr troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio, yn blant ac felly mae'r achosion yma'n cael eu fflagio hefyd fel achosion o gam-drin plant - felly mae gorgyffwrdd rhwng y data am dreisio, am droseddau rhywiol ac am gam-drin plant yn rhywiol.

**Mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn amlinellu achos o dreisio a cham-drin domestig lle dadleuwyd na chafwyd cydsyniad.**

Roedd diffynnydd wedi gorfodi cyfathrach rywiol weiniol ar ei bartner yn dilyn achos o gam-drin domestig. Brathodd ddarn uchaf o goes y dioddefwr, ceisiodd ei chrogi a bygythiodd ei chlymu. Dywedodd hithau ei bod yn gwybod na fyddai'n ei rhyddhau hi nes byddai'n ildio i'w orchmynion ac atebodd "iawn" pan ofynnodd yntau os gallent gael rhyw. Roedd y diffynnydd yn dadlau ei bod hi wedi cydsynio. Yn y treial, sicrhawyd presenoldeb y dioddefwr drwy gyhoeddi gwŷs tystiolaeth, yn dilyn datganiad gwrthdynnu. Rhoddodd hithau dystiolaeth i'r llys i ddangos nad oedd hi'n credu ei bod wedi cael ei threisio am ei bod wedi 'cytuno' i gael rhyw gyda'r diffynnydd. Cafwyd erlyniad cryf a holwyd y dioddefwr unwaith eto'n fedrus iawn i amlinellu achos cyfreithiol o dreisio a chydsynio. Yn dilyn hynny, cafwyd y diffynnydd yn euog o Dreisio a Gwir Niwed Corfforol. Cafodd ei ddedfrydu i wyth mlynedd o garchar.




[**Dilynwch y ddolen at yr adran am Dreisio i gael manylion gweithredoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**]

## Troseddau rhywiol (heb gynnwys treisio)[7] [8]

Cyflwynwyd mesurau arbennig drwy Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 i gefnogi dioddefwyr bregus neu ofnus i roi eu tystiolaeth orau. Mae Adran 28 yn caniatáu i groesholi ddigwydd yn gynharach na'r treial gan helpu pobl i gofio'n well am eu bod yn rhoi'r dystiolaeth yn agosach at amser y drosedd. Gall hynny achosi llai o ofid hefyd oherwydd ni fyddai'n rhaid i'r dioddefwyr roi tystiolaeth yn bersonol yn y llys.

[7] Gall troseddau rhywiol nad ydynt yn cynnwys treisio amrywio o droseddau o gyffwrdd rhywiol heb gydsyniad i ymosodiadau rhywiol difrifol. Cydnabyddir bod llawer o ddioddefwyr troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio, yn blant ac felly mae'r achosion yma'n cael eu fflagio fel achosion o gam-drin plant - felly mae gorgyffwrdd rhwng data am dreisio, am droseddau rhywiol ac am gam-drin plant yn rhywiol.
[8] Nid yw cofnodion Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnwys manylion am benderfyniadau cyn cyhuddo am droseddau rhywiol (heb gynnwys treisio) ac felly ni allent ddarparu data am atgyfeiriadau heddlu neu ddiffynyddion a gyhuddwyd.

Yn 2016-17, ar ôl rhoi cynnig ar weithredu Adran 28 i blant o dan 16 oed mewn tri Llys y Goron (Lerpwl, Leeds a Kingston) cefnogodd Gwasanaeth Erlyn y Goron asiantaethau cyfiawnder troseddol i asesu effaith y cyfnod peilot yma a chymryd camau i'w gyflwyno'n genedlaethol. Ym mis Ionawr 2017, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn cefnogi'r syniad o ymestyn y peilot i gynnwys tystion bregus o dan 18 oed a bydd yn gweithio i'w ymestyn hyd yn oed ymhellach ar gyfer achosion sy'n cynnwys treisio, ymosodiad rhywiol difrifol a chaethwasiaeth fodern.


Yn 201617 cododd nifer yr erlyniadau a'r euogfarnau i'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed, gyda'r gyfradd uchaf erioed o gael pobl yn euog.

- Rhwng 2007-08 a 2016-17, mae nifer yr euogfarnau wedi codi o 5,976 i 10,721, sef cynnydd o 4,745 o euogfarnau, a'r nifer uchaf ers i'r cofnodion gychwyn - cynnydd o 79% dros y cyfnod yma o ddeg mlynedd.

- Yn 2016–17, cododd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd am droseddau rhywiol, heb gynnwys treisio, o 11,995 yn 2015–16 i 13,490 – cynnydd o 1,495 o ddiffynyddion (12.5%); gan gyrraedd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Roedd 37.5% o'r troseddau rhywiol a erlynwyd yn 2016–17 wedi eu cyflawni yn erbyn dioddefwyr oedd yn blant.

- Cododd nifer yr euogfarnau o 9,351 yn 2015–16 i 10,721 yn 2016–17 – sef cynnydd o 1,370 (14.7%). Cododd y gyfradd euogfarnau o 78.0% yn 2015-16 i 79.5% - y nifer a'r gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed.

**Dilynwch y ddolen at yr adran Troseddau Rhywiol i weld manylion gweithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**



**Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos achos o drosedd rhywiol cymhleth sy'n cynnwys y cyfryngau cymdeithasol.**

Erlynwyd dyn am 30 digwyddiad lle'r oedd yn cymryd arno fod yn ferch yn ei harddegau ac yn anfon delweddau ar draws y we at fechgyn ifanc i'w hannog i anfon lluniau ohonynt eu hunain a'u cymell i wneud gweithgareddau rhywiol ar eu brodyr a'u chwiorydd iau ac ar anifeiliaid anwes y teulu. Cychwynnodd y dyn y troseddau hyn pan oedd yn ifanc ac roedd wedi troseddu'n erbyn dioddefwyr mewn amrywiol wledydd ar draws y byd. Cafodd ei ddedfrydu i wyth mlynedd i gyd i adlewyrchu ei oed ar y pryd ond hefyd i ddangos difrifoldeb y drosedd. Rhoddwyd Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) iddo a chafodd ei roi ar y Gofrestr Troseddwyr Rhywiol.

## Trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, priodas dan orfod, ac anffurfio organau rhywiol benywod[9]

### Trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir

Yn 2016 cyhoeddwyd y protocol archwilio ac erlyn cyntaf erioed ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer trais 'er anhrydedd' fel y'i gelwir (HBV) a phriodas dan orfod (FM). Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer trais 'er anhrydedd' a phriodas dan orfod i'w weithredu yn 2017-18 a gweithgor o sefydliadau arbenigol i oruchwylio ei weithrediad. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys diweddaru Canllawiau Cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron; adolygu'r rhestr o Arweinwyr Trais er Anrhydedd a Phriodas dan Orfod Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron; darparu hyfforddiant a datblygu strategaeth gyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron o amgylch y troseddau hyn.

Roedd gostyngiad mewn atgyfeiriadau Trais er Anrhydedd a Phriodas dan Orfod, diffynyddion a gyhuddwyd ac erlyniadau yn 2016-17, gyda nifer gyson o euogfarnau. Nod y cynlluniau gweithredu yw gwella canlyniadau erlyniadau yn 2017-18.

- Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau'n ymwneud â Thrais er Anrhydedd o 216 yn 2015-16 i 200 yn 2016-17, gyda chwymp cyfatebol o 145 i 136 yn y nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd.

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 182 yn 2015–16 i 171 yn 2016–17.

- Arhosodd nifer yr euogfarnau'n sefydlog – 91 yn 2015–16 a 90 yn 2016–17. Cynyddodd y gyfradd euogfarnau o 50.0% i 52.6%.

**Defnyddiwch y ddolen i fynd i'r adran Trais er Anrhydedd i weld manylion gweithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

[9] Am fod nifer yr achosion yn isel, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli data mewn perthynas â'r troseddau hyn.

**Mae'r astudiaeth achos yma'n esiampl o drais ar sail anrhydedd.**

Dedfrydwyd dau ddiffynnydd am drais ar sail anrhydedd oedd yn cynnwys achos o'r gorffennol o esgeuluso plentyn gyda cham-drin corfforol ac emosiynol, o fewn y Deyrnas Unedig ac hefyd yn eu gwlad enedigol. Roedd y dioddefwr 17 oed wedi cael ei gam-drin a'i reoli gan ei dad am fod yn rhy 'orllewinol' ei ffyrdd. Roedd y cam-drin yn ymestyn yn ôl at gyfnod pan oedd y dioddefwr oddeutu deng mlwydd oed, gydag aelod arall o'r teulu'n chwarae rôl arweiniol hefyd mewn cosbi'r dioddefwr am gydymffurfio â chymdeithas y gorllewin. Roedd un o'r ymosodiadau a'r bygythiadau o drais mwy diweddar yn ymwneud â'r ffaith fod y dioddefwr wedi cychwyn perthynas gyda menyw o dras Brydeinig gwyn. Roedd y dioddefwr yn denau iawn ac yn defnyddio'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) oherwydd iselder (yn cynnwys meddwl am hunan-niwedio ac am gymryd ei fywyd ei hun). Derbyniodd un diffynnydd naw mis o garchar a'r llall orchymyn cymunedol 12 mis, gofyniad gweithgaredd adsefydlu (RAR) o 20 diwrnod ac 80 awr o waith heb dâl. Rhoddwyd gorchmynion atal hefyd.

## Priodas dan Orfod

**Astudiaeth achos o briodas dan orfod a weithredwyd gan aelodau'r teulu.**

Cafwyd tad a brawd unigolyn a ddioddefodd briodas dan orfod yn euog o ymosodiad cyffredin. Cyflwynwyd gorchymyn diogelu rhag priodas dan orfod, a symudwyd y dioddefwr i leoliad diogel. Gwrthododd y dioddefwr fynd i'r llys am ei bod yn ofni cael ei herwgydio gan y teulu, felly gwnaethpwyd cais am wŷs dystiolaeth ac aeth hithau i'r llys, gyda chefnogaeth a sgriniau. Cafwyd y diffynyddion yn euog o ganlyniad i'r treial; cafodd un ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol 12 mis (80 awr o waith heb dâl) a'r llall i orchymyn cymunedol 12 mis (cyrffyw 8pm-6am am fis). Talodd y ddau ordal ac iawndal i'r dioddefwr a derbyniodd y ddau orchmynion atal amhenodol hefyd.

- Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu o achosion o briodas dan orfod o 90 yn 2015–16 i 56 yn 2016–17, gyda gostyngiad cyfatebol yn y nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd o 57 i 36.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 53 yn 2015-16 i 44 yn 2016-17.
- Arhosodd nifer yr euogfarnau'n sefydlog ar 32, fel ydoedd yn 2015–16. Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 60.4% yn 2015–16 i 72.7% yn 2016–17.

**Dilynwch y ddolen i'r adran Priodas dan Orfod i weld manylion gweithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos erlyniad llwyddiannus am dorri Gorchymyn Diogelu rhag Priodas dan Orfod.**

Cymerodd y dioddefwr Orchymyn Diogelu rhag Priodas dan Orfod yn erbyn ei thad, y diffynnydd, oherwydd credai ei fod yn mynd i'w gorfodi i briodi rhywun, wedi iddo ganfod ei bod mewn perthynas â rhywun o grefydd wahanol. Derbyniodd y dioddefwr a'i chariad gyfres o negeseuon testun a galwadau ffôn bygythiol gan y diffynnydd ar ôl i'r gorchymyn yma gael ei gyflwyno, dros gyfnod o bedair wythnos. Cyfaddefodd y diffynnydd ei fod wedi anfon y negeseuon a thorri amodau'r gorchymyn gan honni nad oedd wedi darllen y gorchymyn yn gywir. Plediodd y diffynnydd yn euog yn y gwrandawiad cyntaf a chafodd ei ddedfrydu i 18 wythnos o garchar wedi'u gohirio am ddwy flynedd, Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu (RAR) o 20 diwrnod a 120 o oriau o waith heb dâl. Gorfodwyd gorchymyn atal ar y diffynnydd yn ei atal rhag cysylltu â chariad y dioddefwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am ddwy flynedd.

### Anffurfio Organau Rhywiol Benywod

- Roedd yr erlynwyr Anffurfio Organau Rhywiol Benywod (FGM) ymhob un o Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi darparu cyngor archwiliol cynnar i'r heddlu yn dilyn unrhyw adroddiadau am Anffurfio Organau Rhywiol Benywod, ac roeddent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diogelu a hyfforddi lleol, i gefnogi ymgysylltiad â'r gymuned.

- Er nad yw'r gorfodiad i bobl broffesiynol rheng flaen adrodd am ddigwyddiadau wedi achosi cynnydd sylweddol yn yr achosion sy'n cael eu harchwilio a'u hatgyfeirio ar gyfer erlyniad, mae wedi arwain at roi mesurau diogelu ar waith gyda theuluoedd a/neu gyflwyno Gorchmynion Diogelu rhag Anffurfio Organau Rhywiol Benywod fel mesurau ataliol.

**Dilynwch y ddolen i'r adran Anffurfio Organau Rhywiol Benywod i weld manylion am weithredoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r camau nesaf.**

## Cam-drin plant[10]

Parhaodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i chwarae rhan ganolog yn y strategaeth draws-lywodraethol dan arweiniad y Swyddfa Gartref i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda menter i dystion ifanc i gyflymu achosion sy'n cynnwys tystion sy'n iau na 10 oed. Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio hefyd gyda'r Ganolfan Arbenigedd mewn Camfanteisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol[11].

Cafodd rhwydwaith Gwasanaeth Erlyn y Goron o arbenigwyr mewn Cam-drin Plant yn Rhywiol ei adfywio i ddarparu arbenigedd i gydweithwyr sy'n delio gydag achosion o Gam-drin Plant yn Rhywiol, yn lleol ac yn genedlaethol. Diweddarwyd y canllawiau ar erlyn delweddau anweddus o blant yn 2016

Cynyddodd yr atgyfeiriadau am gam-drin plant a'r diffynyddion a gyhuddwyd yn 2016-17. Cafwyd y niferoedd uchaf erioed o erlyniadau ac euogfarnau am gam-drin plant a cham-drin plant yn rhywiol.

[10] Mae gorgyffwrdd rhwng y data am dreisio, am droseddau rhywiol ac am gam-drin plant yn rhywiol oherwydd nifer y troseddau rhywiol a threisio yn erbyn plant.
[11] Sefydlwyd y Ganolfan Arbenigedd gan Barnardo's ac Uned Astudio Cam-drin Plant a Menywod Prifysgol Metropolitan Llundain.

- Rhwng 2007-08 a 2016–17, mae niferoedd yr euogfarnau am gam-drin plant yn rhywiol wedi codi o 2,840 i 5,374, sef cynnydd o 2,534 o erlyniadau, a'r nifer uchaf ers cychwyn cofnodi - cynnydd o 89% dros y cyfnod yma o ddeng mlynedd.

- Yn 2016–17, cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu ynghylch cam-drin plant o 13,282 yn 2015–16 i 13,310 – sef cynnydd o 28 atgyfeiriad (0.2%). Cyhuddwyd 8,974 (67.4% o atgyfeiriadau), sef cynnydd o 85 ers 2015–16, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 11,130 yn 2015–16 i 11,793 yn 2016–17 – sef cynnydd o 663 (6.0%), y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cododd nifer yr euogfarnau o 8,439 yn 2015–16 i 8,999 yn 2016–17 – sef cynnydd o 560 (6.6%) – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.


- Cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd am droseddau cam-drin plant yn rhywiol yn 2016–17 o 6,217 i 7,181 – sef cynnydd o 964 (15.5%) a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cododd nifer yr euogfarnau am gam-drin plant yn rhywiol o 4,643 yn 2015–16 i 5,374 yn 2016–17 – cynnydd o 731 (15.7%) – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Arhosodd y gyfradd euogfarnau'n sefydlog ar 74.8%.

**Dilynwch y ddolen at yr adran am gam-drin plant i weld manylion am weithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos erlyniad llwyddiannus o dramor, gan ddefnyddio dolen fideo o bell, i gael yn euog unigolyn a gyflawnodd droseddau difrifol o gam-drin plant, yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol, dros nifer o flynyddoedd.**

O 2004 hyd 2012, gorfododd un diffynnydd ei blant i gyd i ddioddef ymgyrch o drais corfforol gan gam-drin dau o'r plant yn rhywiol. Roedd y cam-drin rhywiol yn cynnwys treisio un o'i feibion dro ar ôl tro, a oedd bryd hynny'n wyth oed, dros gyfnod o fisoedd lawer, yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol niferus arno ef a'i frawd oedd bryd hynny'n saith mlwydd oed. Roedd y fam (a ddioddefodd ymosodiadau hefyd) wedi bod yn amharod yn y gorffennol i ddweud wrth yr awdurdodau am y troseddau hyn am ei bod hi'n gywilydd yn ei chymuned hithau i roi gwybod i'r awdurdodau am aelod arall o'r gymuned. Ond dihangodd hithau a'i phlant o'r wlad ac, yn 2016, daeth yr heddlu ati dramor ac adroddodd hithau ei hanes wrth yr awdurdodau am y tro cyntaf. Rhoddwyd mesurau arbennig iddynt i roi eu tystiolaeth drwy ddolen o bell. Caewyd yr oriel gyhoeddus i bawb heblaw'r wasg pan roddodd y plant dystiolaeth. Cafodd ei ddedfrydu i 22 mlynedd o garchar.




## Masnachu mewn Pobl

Gweithiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron gydag amryiwaeth o bartneriaid archwilio, erlyn a llywodraethol i wella'r ymateb domestig a rhyngwladol i gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Darparodd Adran Troseddu Cyfundrefnol a Chyfiawnder Rhyngwladol Gwasanaeth Erlyn y Goron gefnogaeth adeiladu gallu mewn gwledydd sydd â'r flaenoriaeth (yn cynnwys anfon Cynghorydd Cyfiawnder Troseddol i Nigeria yn 2016-17). Bu erlynwyr yn helpu cydweithwyr rhyngwladol i orfodi asedau ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron, drwy gytundebau rhannu asedau, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu eu gallu eu hunain i adfeddu asedau. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod asedau'n cael eu hatafaelu er mwyn cefnogi gorchmynion iawndal i ddioddefwyr.

Cododd nifer yr atgyfeiriadau heddlu, gyda nifer gyson o ddiffynyddion yn cael eu cyhuddo a'u herlyn. Gostyngodd nifer yr euogfarnau ychydig bach.

- Cododd nifer yr atgyfeiriadau masnachu mewn pobl gan yr heddlu o 246 yn 2015–16 i 271 yn 2016–17 – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, gyda nifer gyson o ddiffynyddion yn cael eu cyhuddo (188).

- Arhosodd nifer y erlyniadau am fasnachu mewn pobl a gwblhawyd yn 2016-17 yn sefydlog ar 295. Dyma oedd y nifer hefyd yn 2015-16.

- Gostyngodd nifer yr euogfarnau am fasnachu mewn pobl o 192 yn 2015-15 i 181 yn 2016–17. Gostyngodd y gyfradd o euogfarnau o 65.1% i 61.4%.

**Dilynwch y ddolen at yr adran am Fasnachu mewn Pobl i weld manylion gweithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r astudiaeth achos yma'n esiampl o fasnachu mewn pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol.**

Gorfododd tri diffynnydd i grŵp o fenywod o Hwngari weithio fel puteiniaid. Cafodd y menywod eu masnachu i'r Deyrnas Unedig gyda'r addewid o swyddi go iawn. Cymerwyd eu dogfennau hunaniaeth oddi arnynt a chawsent eu gorfodi i wneud gwaith rhyw. Roedd dwy o'r menywod yn cael hyd at ddeg cwsmer bob dydd, tra gorchmynwyd bod trydedd un yn cael rhyw gyda dynion mewn busnesau golchi ceir. Roedd y dioddefwyr, oedd rhwng 19 a 24 oed, yn dod o gefndiroedd tlawd ac yn methu siarad llawer o Saesneg neu'n methu siarad Saesneg o gwbl. Llwyddodd un o'r diffynyddion i ddarbwyllo dwy o'r menywod ei fod mewn perthynas ramantus gyda nhw er mwyn eu defnyddio nhw i'w bwrpasau ei hun. Cafwyd y diffynyddion yn euog - cafodd un ei ddedfrydu i fwy na 13 mlynedd o garchar; yr ail i fwy nag wyth mlynedd am fasnachu mewn pobl a gorfodi puteindra a chafodd y trydydd ei ddedfrydu i fwy na thair blynedd am reoli puteindra er ei fudd ei hun.

## Puteindra

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn canolbwyntio ar erlyn y rheiny sy'n gorfodi eraill i gymryd rhan mewn puteindra, yn camfanteisio arnynt ac yn eu cam-drin a'u niweidio. Ein dull ar y cyd gyda'r heddlu, gyda chefnogaeth asiantaethau eraill, yw helpu'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn puteindra i ddatblygu llwybrau allan ohono.

- Arhosodd nifer y troseddau sy'n ymwneud â phuteindra[12] mewn perthynas â rheoli puteindra'n sefydlog yn 2016-17 (99 o 100 yn 2015–16) o'i gymharu â gostyngiad mewn erlyniadau am gadw puteindy (90 o 111) a hel puteiniaid o gerbyd (148 o 153).

- Gostyngodd yr erlyniadau am droseddau stryd i 127 yn 2016-17 o 163 yn 2015-16.

**Dilynwch y ddolen at yr adran am Buteindra i weld manylion am weithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r astudiaeth achos yma'n esiampl o'r ffordd mae troseddwyr yn targedu merched ifanc sydd mewn sefyllfa fregus, gan gymryd arnynt eu bod mewn cariad â nhw i gamfanteisio arnynt yn rhywiol.**

Cafodd merch ifanc 17 oed ei meithrin yn amhriodol gan ddau ddyn oedd yn manteisio ar ei sefyllfa fregus am ei bod wedi cael plentyndod trawmatig. Cymerodd un or dynion arno ei fod yn ei charu a syrthiodd hithau mewn cariad ag ef. Am gyfnod o chwe mis roedd y ddau ddyn yn ei pharatoi hi, yn ei gorfodi, yn ei chymell ac yn ei rheoli i werthu rhyw. Dros gyfnod o amser roeddent yn rhoi cyffuriau iddi ac yn bygwth ei niweidio hi neu'r rheiny oedd yn annwyl iddi.

## Pornograffi ac anweddustra[13]

Cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ganllawiau diwygiedig am erlyn delweddau anweddus o blant (IIOC) yn 2016 i symleiddio a rhesymoli'r defnydd a wneir o ddelweddau mewn erlyniadau. Mae

---

[12] Nodwch nad yw data Gwasanaeth Erlyn y Goron am buteindra ond ar gael o system ddata sydd wedi'i seilio ar droseddau ac felly ni all gynnwys data am atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddo a chanlyniadau.

[13] Yr un fath â'r troednodyn blaenorol ar gyfer troseddau pornograffi ac anweddustra.

hyn wedi caniatáu i erlyniadau symud ymlaen yn fwy effeithlon gyda llai o droseddau i bob diffynnydd sy'n cael eu herlyn, ond gan ganiatáu digon o allu dedfrydu i ymdrin â difrifoldeb y troseddu.

Cafwyd cynnydd yn y nifer o droseddau anweddustra a erlynwyd, gyda chyfran uwch o erlyniadau am achosion difrifol o sarhaus neu anweddus yn ymwneud â cham-drin domestig. Cynyddodd y nifer o erlyniadau am yr hyn a elwir yn 'bornograffi treisio' a'r hyn a elwir yn 'bornograffi dial'.

- Yn 2016-17 cafwyd gostyngiad mewn erlyniadau am droseddau delweddau o gam-drin plant[14] o 22,545 yn 2015-16 i 20,803. Roedd y rhain yn cynnwys cychwyn erlyniadau mewn 14,691 o droseddau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant drwy ffotogaffau, oedd wedi gostwng ers 2015–16 pan gafwyd 16,672 (cwymp o 11.9%).

- Cafwyd cynnydd mewn troseddau anweddustra a erlynwyd o 6,940 yn 2015–16 i 8,049 yn 2016–17 (16%).

- Roedd 24 o erlyniadau am bornograffi treisio yn 2016-17, cynnydd o dri yn 2015-16.

- Cychwynwyd 465 o erlyniadau am y drosedd o ddatgelu delweddau rhywiol preifat heb gydsyniad (yr hyn a elwir yn bornograffi dial) sef cynnydd o'r 206 yn y flwyddyn flaenorol.

- Cychwynwyd pedwar ar ddeg o erlyniadau am y drosedd o feddu ar lyfryn pedoffil, sy'n gynnydd o un ar y flwyddyn flaenorol.

**Dilynwch y ddolen at yr adran am bornograffi ac anweddustra i weld manylion am weithredoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.**

**Mae'r achos nesaf yn esiampl o'r achosion yr ydym eu herlyn erbyn hyn o dan y drosedd o feddu ar lawlyfr pedoffil.**

Archwiliodd yr heddlu gyfrifiadur a ffôn symudol troseddwr pan gafwyd ef yn euog o droseddau eraill. Yn ystod yr archwiliad cafodd yr heddlu hyd i lawlyfr pedoffil 170 o dudalennau oedd yn disgrifio sut i gael perthynas rywiol gyda phlentyn, yn cynnwys cyngor ar sut i beidio cael eich dal gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Plediodd y dyn yn euog i feddu ar y llawlyfr pedoffil a throseddau rhywiol eraill a rhoddwyd dwy flynedd o garchar iddo yn rhan o ddedfryd gyfan o chwe mlynedd a thrwydded estynedig o bedair blynedd. Rhoddodd y llys Orchymyn Atal Niwed Rhywiol iddo hefyd am oes.

[14] Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn tynnu'r flaenoriaeth oddi ar erlyn y troseddau hyn, yn hytrach gallwn ddefnyddio llai o droseddau i bob erlyniad, gan ddilyn y canllawiau diwygiedig sy'n ymwneud â symleiddio delweddau mewn erlyniadau.

**Mae'r astudiaethau achos nesaf yn dangos yr amrywiol ffyrdd y mae pobl yn camddefnyddio delweddau rhywiol - maent yn ymdrin â delweddau anweddus o blant yn cynnwys cam-drim babanod yn rhywiol, a dangos delweddau preifat heb gydsyniad o ryw heterorywiol a chyfathrach rhwng yr un rhyw.**

Cafwyd diffynnydd yn euog o gam-drin ei fabi bach yn rhywiol, gan recordio'i gamdriniaeth ohoni a'i rannu gyda phobl eraill ar y we. Gwadodd dynnu'r lluniau ond aeth arbenigwyr ati i astudio'r ystafelloedd gwely yn y tŷ, dillad ac eitemau megis wats y diffynnydd, a oedd yn profi mai ef dynnodd y lluniau. Atafaelwyd eitemau electronig o gartref y diffynnydd, yn cynnwys delweddau o gam-drin babanod yn rhywiol, o rai newydd-anedig i ferched naw oed. Cafwyd ef yn euog a'i ddedfrydu i 13 mlynedd o garchar yn ogystal â blwyddyn o drwydded estynedig a Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol.

Roedd diffynnydd arall wedi ymosod ar ei bartner a'i cham-drin nifer o weithiau, dros gyfnod o fisoedd Roedd wedi ei gorfodi i adael iddo dynnu llun ohoni'n hanner noeth a rhoi ei chyfrineiriau iddo ar gyfer ei chyfrif ar y cyfryngau cymdeithasol. Pan wahanodd hithau wrth wrtho, aeth ati i bostio'r llun ohoni a'i addasu, gan ei hysbysebu hi a'i mam fel puteiniaid. Hefyd addasodd luniau pornograffig gan osod nodweddion y dioddefwr arnynt ac yna anfonodd y lluniau at ei rhieni. Canfu'r cyfreithiwr oedd yn erlyn yr achos bod hon yn berthynas oedd yn rheoli ac yn gorfodi (C&C) ac ychwanegodd y cyhuddiad hwnnw a chyhuddiad o gyfathrebu sarhaus. Plediodd y diffynnydd yn euog i'r cyhuddiad o reoli a gorfodi, yn cynnwys postio delweddau o'r dioddefwr a'i mam. Cafodd ei ddedfrydu i ddwy flynedd o garchar gyda gorchymyn atal o bum mlynedd.

Mewn trydydd achos roedd cwpwl wedi gwahanu yn dilyn perthynas rywiol fer. Yn ystod y berthynas roedd y dioddefwr wedi rhannu lluniau noeth ohoni ei hun gyda'r diffynnydd. Yna anfonodd y diffynnydd un o'r lluniau at gydweithwyr y dioddefwr ar yr e-bost a bygythiodd anfon rhagor o luniau a negeseuon testun ag iddynt gynnwys rhywiol. Roedd y dioddefwr yn gofidio'n arw am mai dyma oedd ei pherthynas gyntaf gyda merch arall a doedd hi ddim wedi datgelu hyn wrth ei chyfeillion, ei theulu na'i chydweithwyr. Roedd natur swyddi'r ddau barti'n golygu bod yr

**Yn 2016-17 cychwynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron 465 a 309 o erlyniadau am y troseddau newydd o 'ddatgelu delweddau rhywiol preifat heb gydsyniad' a 'rheoli drwy orfodaeth', yn y drefn honno.**



**Darperir yr adroddiad data am Drais yn erbyn Menywod a Merched, sy'n amlinellu'r data am berfformiad ar gyfer yr holl erlyniadau Trais yn erbyn Menywod a Merched ac arferion da, yn y fan yma (ychwanegwch y ddolen).**

**Atodiad 1 Data'r Ardaloedd (ychwanegwch y ddolen)**
**Atodiad 2 Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (ychwanegwch y ddolen)**
**Rhestr termau ac acronymau (dolen)**